Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Roath Flood Scheme News

Issue 9 // September 2015

**Natural Resources Wales** brings together the work of the Countryside Council for Wales, Environment Agency Wales and Forestry Commission Wales. Our purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably enhanced, maintained and used, now and in the future.

## Welcome to our ninth newsletter!

**Many homes and businesses in the Roath, Penylan and Newport Road areas are at risk of flooding from the Roath Brook and the River Rhymney. Natural Resources Wales is working with partners and the community to design and deliver a flood scheme.**

**This newsletter aims to keep you informed of the scheme's progress and upcoming consultation.**

### Public Exhibition

Many thanks to everyone who attended the public exhibition on the 20th July, over 120 people signed into the event. We would like anyone who attended who has not yet commented on the design to please submit a feedback form to us. We will be using these comments to consider potential design changes.

If you could not attend our exhibition the presentation material can be accessed at the following link. **http://www.flickr.com/photos/natreswales**.

The main changes we have made since October 2014 relate to changing the level of flood protection offered by the scheme, to a 1:75 year standard of flood protection in the gardens. This standard of defence will mean:

**Wall Heights:** These will be reduced at a number of locations, with as much as a 0.5m reduction at the Sandies (Railway Gardens) and Waterloo Gardens.

**Defence Lengths:** The length of flood defences has been significantly reduced. Works around Pen-Y-Lan Library and Roath Brook Gardens are now sustainably reduced.

**Housing Insurance:** A 1:75 year standard of protection is the minimum requirement for insurers.



// Proposals in Waterloo Gardens

In terms of feedback made from the exhibition we are making the following amendments to the design.

**Roath Mill Gardens**
Handrailing near Blenheim Road to be reviewed.

**Waterloo Gardens**
Additional planting to be considered near the flood wall.

**The Sandies (Railway Gardens)**
Footpath alignment to be adjusted.

### What's Next?

We are currently in the process of obtaining financial sign off on the revised design from the Welsh Government. We are required to complete this before submitting a planning application.

Following this we will be submitting our plans to the Planning Authority in October 2015, this will provide a further round of consultation on the scheme.

Prior to the planning application we will contact residents who requested a site visit the opportunity to walk the site with our design team.

If you would like to review our previous newsletters or consultation material, please follow the link below: **http://naturalresources.wales/about-us/news-andevents/newsletters/roath-flood-scheme-news/?lang=en**

## Contact us or sign up for news:

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Newyddlen Cynllun Llifogydd Y Rhath

Rhifyn 9 // Medi 2015

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ein diben yw sicrhau gwella, cynnal a defnyddio adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

## Croeso i'n nawfed cylchlythyr!

**Mae nifer o gartrefi a busnesau yn ardal y Rhath, Peny- lan a Heol Casnewydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn sgil Nant y Rhath ac Afon Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i gynllunio a darparu cynllun llifogydd.**

**Nod y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybod ichi am gynnydd y cynllun a'r ymgynghoriad sydd ar ddod.**

### Arddangosfa Gyhoeddus

Diolch yn fawr i bawb a fynychodd yr arddangosfa gyhoeddus ar 20 Gorffennaf – cymerodd mwy na 120 o bobl ran yn y digwyddiad. Os gwnaethoch fynychu'r digwyddiad, ond os nad ydych wedi cyflwyno sylwadau eto ynghylch y cynllun, a wnewch chi anfon ffurflen adborth atom. Byddwn yn defnyddio'r sylwadau hyn wrth ystyried newidiadau posibl i'r cynllun.

Os methoch â dod i'r digwyddiad, gallwch weld y deunyddiau a gyflwynwyd trwy glicio ar **http://www.flickr.com/photos/natreswales**.

Mae'r prif newidiadau rydym wedi'u gwneud er Hydref 2014 yn ymwneud â lefel gyfnewidiol yr amddiffyniad rhag llifogydd a gynigir gan y cynllun, amddiffyniad hyd at safon 1:75 mlynedd yn y gerddi. Dyma y mae'r safon hon yn ei olygu:

**Uchder y waliau:** Bydd y rhain yn cael eu gostwng mewn sawl lleoliad, gyda gostyngiad o 0.5m yn y Sandies (Railway Gardens) a Gerddi Waterloo.

**Hyd yr amddiffynfeydd:** Mae hyd yr amddiffynfeydd rhag llifogydd wedi'u lleihau'n sylweddol. Mae'r gwaith o amgylch Llyfrgell Pen-y-lan a Gerddi Nant y Rhath wedi'u lleihau'n gynaliadwy.

**Yswiriant tŷ:** Safon 1:75 mlynedd yw'r amddiffyniad sylfaenol ar gyfer yswirwyr.

**Er mwyn cysylltu â ni neu dderbyn newyddion:**
Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk



// Cynigion yng Ngerddi Waterloo

O ran yr adborth a gafwyd ar sail yr arddangosfa, rydym yn gwneud y newidiadau canlynol i'r cynllun.

**Gerddi Melin y Rhath**
Adolygu'r canllawiau ger Heol Blenheim.

**Gerddi Waterloo**
Ystyried plannu mwy ger y mur llifogydd.

**Y Sandies (Railway Gardens)**
Addasu aliniad y llwybr troed.

### Beth nesaf?

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n cael cymeradwyaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun diwygiedig. Rhaid inni gwblhau'r broses hon cyn cyflwyno cais cynllunio.

Wedyn, byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau i'r Awdurdod Cynllunio ym mis Hydref 2015. Bydd hyn yn esgor ar fwy o ymgynghori ynghylch y cynllun.

Cyn cyflwyno'r cais cynllunio byddwn yn cysylltu â'r preswylwyr a ofynnodd am gael ymweld â'r safle er mwyn rhoi cyfle iddynt gerdded ar hyd y safle gyda'n tîm cynllunio.

Os hoffech weld y cylchlythyrau blaenorol neu'r deunyddiau ymgynghori, cliciwch ar y ddolen isod: **http://naturalresources.wales/about-us/news-andevents/newsletters/roath-flood-scheme-news/?lang=en**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government